69 Canfûm fod gwaith diweddar y Bwrdd Iechyd i gysoni ei amcanion strategol, blaenoriaethau cynllunio a blaenoriaethau gwella ansawdd wedi cryfhau ei allu i sicrhau bod gwella ansawdd yn ganolog i'w drefniadau llywodraethu. Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sefydledig, ac mae staff yn hyderus ar y cyfan i hysbysu ynghylch pryderon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wrando a dysgu a sicrhau bod arfer gorau'n cael ei rannu a'i gyfleu, gan gynnwys trwy Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

70 Mae cyfrifoldeb corfforaethol am ansawdd a diogelwch wedi hen ennill ei blwyf, a cheir cefnogaeth dda gan dimau corfforaethol i staff gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu dulliau arloesol o fynd ati i gryfhau adnoddau a chapasiti ar gyfer profiad cleifion. Ceir defnydd cynyddol o ddangosyddion canlyniadau ansawdd a diogelwch i helpu i roi arweiniad ar gyfer trefniadau cynllunio a monitro gan gynnwys rhoi'r pedwar cwadrant niwed ar waith.

71 Fodd bynnag, canfu fy ngwaith y cyfyngir ar sicrwydd ar gyfer y Bwrdd gan anghysonderau mewn trefniadau rheoli risgiau gweithredol, methiant i ddiweddaru rhai cofnodion risg yn y gofrestr risgiau gweithredol yn unol â'r polisi corfforaethol, a diffygion yng nghynnwys cofrestrau. Er bod cyfrifoldeb a strwythurau ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion wedi'u sefydlu'n glir, ar lefel weithredol mae arweinyddiaeth, adnoddau a threfniadau i ategu prosesau llywodraethu ansawdd yn dal i fod yn anghyson. Mae'r ffordd yr adroddir ar risgiau a materion trwy is-bwyllgorau a phwyllgorau wrth y Bwrdd weithiau'n arwain at wanhau'r neges sy'n cael ei chyfleu.

